24. Fel sefydliad dielw, mynegodd Linc Cymru'r farn y byddai **llais cryfach i'r sector dielw** – i'w glywed gan Lywodraeth Cymru – yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau o'r math hyn i bobl hŷn yng Nghymru. Teimlwyd hefyd y byddai llwyfan lle gallent ddod ynghyd, o gymorth i rannu'r arferion gorau yn y maes hwn.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-15-12 papur 7

Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn – Ymweliad â Datblygiad Woodcroft Cymorth Hafod (8 Chwefror 2012)

Cefndir

1. Fel rhan o'r ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn, bu aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ymweliad â Datblygiad Woodcroft Cymorth Hafod ar 8 Chwefror 2012.

2. Yn ystod yr ymweliad cyfarfu aelodau'r Pwyllgor â chynrychiolwyr o blith staff Cymorth Hafod a'i rhiant-gorff, Hendre Cyf. Diben yr ymweliad oedd:

    - gweld cyfleusterau gofal preswyl newydd sbon – gan gynnwys fflatiau gofal agos a chartref gofal preswyl – cyn iddynt gael eu hagor i breswylwyr; a

    - dysgu mwy am y dull seiliedig ar 'gampws' a fabwysiadwyd gan Gymorth Hafod yn natblygiad Woodcroft.

3. Dewisodd y Pwyllgor ymweld â'r safle cyn agoriad swyddogol y cartref gofal er mwyn sicrhau nad oed presenoldeb yr Aelodau'n amharu ar breifatrwydd y preswylwyr. Bwriedir i'r Aelodau gael cyfle i sgwrsio â phreswylwyr unigol – fel rhan o waith ymgysylltu ehangach y Pwyllgor – yn ystod yr ymchwiliad.

4. Mae'r papur hwn yn crynhoi'r pwyntiau allweddol a gododd yn ystod ymweliad y Pwyllgor.

Hanes safle Woodcroft

5. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cartref gofal gwreiddiol ar safle Woodcroft, a adeiladwyd yn yr 1960au, yn cael ei redeg gan Gyngor Sir Caerdydd, gyda chymorth Cymorth Hafod. Mae Hafod bellach wedi cymryd y datblygiad gyda les hirdymor am rent rhad, sydd wedi caniatáu iddi ailddatblygu'r cyfleusterau.

6. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr ailddatblygiad wedi golygu dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladu cartref gofal newydd ar y safle, yn ogystal ag adeiladu nifer o fflatiau 'gofal agos'. Mae'r cartref gofal newydd bellach ar fin cael ei gofrestru a disgwylir iddo gael ei agor yn swyddogol ym mis Ebrill 2012.

Y Datblygiad Woodcroft newydd

Cyfleusterau'r cartref gofal preswyl

7. Eglurodd staff Hafod wrth yr Aelodau fod 60 uned yn y cartref gofal - 24 ar y llawr daear, a 18 ar bob llawr arall. Mae'r llawr daear a hanner y llawr cyntaf ar hyn o bryd wedi'i neilltuo ar gyfer llety i'r henoed bregus eu meddwl . Nid oes gwelyau wedi'u neilltuo ar gyfer gofal nyrsio ar hyn o bryd, er bod yr adeilad wedi'i gynllunio'n bwrpasol er mwyn trefnu ar gyfer hyn yn y dyfodol, os bydd angen.

8. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cartref gofal wedi'i rannu'n sawl adain. Mae hyn yn caniatáu defnydd hyblyg o fannau y gellir eu hail-ddyrannu yn ôl yr angen, gan y dywedwyd wrth yr Aelodau fod gofal am yr henoed bregus eu meddwl yn ei gwneud yn ofynnol i ddrysau ar gyfer y mannau sy'n cael eu rhannu fod yn rhai y gellir eu cloi. Hefyd mae cyfyngiad ar faint o fannau agored sydd ar gael.

9. Dywedwyd wrthym fod y cartref gofal wedi costio £4.6 miliwn i'w ddatblygu, sy'n cyfateb i tua £75,000 y gwely. Mae pob ystafell o'r un safon, ac maent i gyd â chyfleusterau en-suite.

10. Eglurodd staff Hafod na roddwyd unrhyw grant tai cymdeithasol ar gyfer datblygu'r cartref gofal, er eu bod yn credu mai ychydig o effaith fyddai hyn wedi'i gael gan fod y costau cyfalaf yn eithaf isel o'u cymharu â gwariant fel costau staffio ac ati.

11. Mae'r Aelodau ar ddeall bod Cyngor Caerdydd wedi gwneud archeb bloc am 24 gwely yn y cartref gofal ar raddfa a gytunwyd. Eglurwyd fod hyn wedi helpu Cymorth Hafod gan ei fod yn sicrhau y bydd rhywfaint o breswylwyr yn y cartref bob amser o leiaf. Dywedwyd wrthym hefyd fod Cyngor Caerdydd yn cau nifer o gartrefi ar draws y ddinas, sydd wedi cynyddu'r galw, ond mae natur gofal preswyl yn newid, gyda phobl yn aros yn eu cartrefi eu hunain yn hwy. Dywedwyd wrthym fod hyn yn effeithio ar ddarparwyr.

Fflatiau 'gofal-agos'

12. Yn ychwanegol at y cartref gofal a ddisgrifir uchod, aeth cynrychiolwyr Cymorth Hafod hefyd ag aelodau'r Pwyllgor i ymweld â'r 15 fflat 'gofal-agos' a adeiladwyd ar yr un safle.

13. Yn wahanol i'r tir ar gyfer y cartref gofal, (a drosglwyddwyd i Gymorth Hafod ar les hirdymor am rent rhad), dywedwyd wrthym fod y tir ar gyfer y fflatiau wedi'i brynu oddi wrth Gyngor Caerdydd gan Gymorth Hafod ar raddfa fasnachol. Eglurodd Cymorth Hafod fod rhywfaint o grant tai cymdeithasol ar gael i ddatblygu'r fflatiau ac mai cyfanswm cost y datblygiad oedd £1.8 miliwn (tua £125,000 y fflat).

14. Eglurodd staff Hafod fod y preswylwyr sy'n byw yn y fflatiau i gyd wedi'u henwebu ar gyfer y cyfleusterau hyn drwy Gyngor Caerdydd.

15. Dywedwyd wrthym fod y fflatiau'n caniatáu i breswylwyr fyw'n annibynnol tra'u bod yn cael systemau cymorth – fel y tîm gofal 24 awr y dydd a'r tîm cymorth tai – os oes angen. Gall preswylwyr y fflatiau hefyd gael mynediad at gyfleusterau fel prydau bwyd a gweithgareddau sy'n cael eu rhedeg yn y cartref pan fyddant yn dewis. Eglurodd y staff fod hyn hefyd yn creu cyswllt â'r cartref os bydd anghenion preswylwyr y fflatiau yn y dyfodol yn golygu y byddant yn dymuno – neu angen – symud i'r lleoliad arall hwnnw yn ddiweddarach yn ystod eu bywyd

Staffio, ariannu a darparu adnoddau ar gyfer y datblygiad

16. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd oddeutu 90 o staff yn cael eu cyflogi yn y datblygiad –o'r ardal yn bennaf. Eglurodd ein gwahoddwyr fod llawer o weithwyr yn dewis dod o'r sector preifat, yn enwedig gan fod y sefydliad yn rhedeg rhaglen hyfforddi ac anwytho dda. Yn ychwanegol at gyflogi staff lleol, mae'r sefydliad hefyd yn ceisio cefnogi busnesau lleol a phrynu'n lleol lle mae hynny'n bosibl.

17. Dywedwyd wrthym fod strwythur ffioedd y cartref yn fras, fel a ganlyn:
    - £450 yr wythnos i breswylwyr sylfaenol
    - £530 yr wythnos i gleifion sydd â dementia
    - £700-£750 yr wythnos am ofal nyrsio

18. Eglurodd y staff fod y ffioedd hyn, o'u gwybodaeth hwy, yn ffafriol o'u cymharu â'r sector preifat, sy'n tueddu i godi ffioedd uwch ac sy'n aml yn codi tâl ychwanegol e.e. tâl ychwanegol am deledu. Awgrymodd y staff hefyd, o'i gymharu â'r gost i'r GIG o un noson mewn gwely ysbyty a lle mae hynny'n glinigol briodol, gall costau gofal preswyl gynnig dewis arall sy'n rhoi gwell gwerth am arian.

Model Cymorth Hafod

19. Eglurodd staff Hendre Cyf a Chymorth Hafod:

    - Cymdeithas Tai elusennol yw Cymorth Hafod sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau tai a chymorth i dros 1000 o bobl bob blwyddyn ar draws De a Gorllewin Cymru ac mae'n rhan o Grŵp Hendre. Caiff ei redeg fel cwmni dielw.

    - Fel cwmni dielw mae'n creu cronfeydd drwy fenthyg a chreu gwarged. Mae'n ail-fuddsoddi arian gwarged mewn prosiectau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes – nid yw unrhyw arian a wneir yn mynd i gyfranddalwyr. Mae ganddynt dargedau gweithredol i greu gwarged, ond ni chaiff yr elw hwn ei wneud ar draul gofal preswylwyr. Bydd datblygiad Woodcroft yn rhedeg ar ddiffyg ariannol am ychydig o flynyddoedd.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-15-12 papur 8

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Ymweliad â Thŷ Bethel, Dinas Powys (28 Mawrth 2012)

Cefndir

1. Fel rhan o'r ymchwiliad i ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn, aeth aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ymweliad â Thŷ Bethel yn Ninas Powys ar 28 Mawrth 2012.

2. Cyfarfu aelodau'r Pwyllgor â staff a phreswylwyr Tŷ Bethel yn ystod yr ymweliad. Diben yr ymweliad oedd:

    - Ymweld â chartref gofal preswyl sy'n fwy traddodiadol a sefydledig a thrafod â staff pa heriau sy'n eu hwynebu wrth ddarparu gofal preswyl.

3. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ymweld â Thŷ Bethel gan Brian West, sef Cadeirydd Cymdeithas Cartrefi Gofal Bro Morgannwg.

4. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r prif bwyntiau a nodwyd yn ystod ymweliad y Pwyllgor.

Gwybodaeth am Dŷ Bethel

5. Caiff Tŷ Bethel ei redeg o fewn ethos Cristnogol, ac fe'i sefydlwyd fel rhan o ganolfan Neuadd Hebron. Mae lle i 39 o breswylwyr aros yno, ac mae darpariaeth ar gyfer saith gwely i henoed bregus eu meddwl. Nid yw hwn yn gartref sy'n anelu at wneud elw.

6. Daw pobl i'r cartref am amrywiaeth o resymau – er enghraifft, bydd rhai pobl yn dewis y cartref oherwydd eu crefydd, a bydd eraill yn ei ddewis oherwydd ei leoliad.

7. Mae oed cyfartalog y preswylwyr wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf; mae'r mwyafrif yn eu nawdegau bellach. Mae perchnogion y cartref wedi sylwi ar dueddiad i annog pobl i aros gartref am gyhyd â phosibl y dyddiau hyn, yn hytrach na chael gofal.

8. Clywodd yr Aelodau sut y bydd Tŷ Bethel yn ceisio mynd i'r afael â'r pryder mewn pobl, sy'n gysylltiedig â symud i ofal preswyl, drwy geisio egluro mai cartref y preswylydd ydyw, ac y dylid ystyried bod yr unigolyn wedi symud tŷ wrth ddod i'r cartref. Mae'r perchnogion yn ymwybodol mai ychydig o bobl sy'n edrych ymlaen at symud i gartref preswyl, ond o'u profiad hwy, unwaith y bydd rhywun wedi setlo yn y cartref, bod tuedd iddynt fod yn llawer hapusach ac iachach am nifer o resymau, er enghraifft byddant yn fwy tebygol o gymryd eu

moddion yn rheolaidd, a bydd ganddynt ragor o gysylltiad rheolaidd gydag amrywiaeth o bobl ynghyd â rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.

9. Mae Tŷ Bethel newydd benodi cydgysylltydd gweithgareddau, a fydd yn datblygu'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ganddynt yn y cartref ar hyn o bryd, sy'n cynnwys 'munud i feddwl' bob dydd, gwasanaeth ar y Sul, a gweithgareddau crefft. Hefyd, bydd siop leol yn galw yn y cartref yn rheolaidd.

Staffio a hyfforddi

10. Cyflogir 40 o bobl yn y cartref, a byddant yn gweithio shifftiau. Dywedodd perchnogion Tŷ Bethel wrth aelodau'r Pwyllgor nad ydynt wedi cael fawr o broblemau o ran recriwtio a chadw staff, ac maent o'r farn mai'r gyfradd gyflog a gynigir ganddynt, a'r sefyllfa gyflogaeth ar hyn o bryd, sydd i gyfrif am hynny.

11. Bu nifer o ddatblygiadau o ran lefel yr hyfforddiant ar gyfer staff, sydd wedi newid disgwyliadau pobl. Awgrymwyd bod darparu cymwysterau NVQ yn gam da, ond nad oedd pawb a oedd yn gweithio yn y sefyllfa ofal yn awyddus i wneud hyn.
12. Fel rhan o'r ymweliad, bu'r Aelodau'n sgwrsio â Kay, sydd wedi gweithio yn y cartref am 18 mlynedd. Penderfynodd hi ymgymryd â'r proffesiwn gofalu yn dilyn ei phrofiadau o ofalu am ei mam, a'i hawydd i roi'r un gofal i bobl eraill. Roedd hi o'r farn fod hwn yn le gwych i weithio, ac mai dulliau rheoli'r cartref oedd i gyfrif am hyn. Teimlai bod awyrgylch cadarnhaol yn y cartref hefyd, oherwydd bod y preswylwyr yn ofalus o'i gilydd, a'u bod yn ystyried eu bod yn rhan o deulu mawr - er enghraifft, maent yn cynllunio i gynnal parti stryd ar gyfer dathliadau'r jiwbilî diemwnt eleni.

Cofrestru Gofal Preswyl a Gofal Nyrsio ar y Cyd

13. Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn Nhŷ Bethel, y nod yw ceisio cadw ffocws ar bobl amser, hyd yn oed pan fydd dementia yn datblygu. I wneud hyn, byddant yn ceisio asesu anghenion gofal preswylwyr ac ystyried yr anghenion hynny wrth ddarparu ar eu cyfer, a byddent yn symud rhywun i gyfleuster arall dim ond os na fyddai dim dewis arall ar gael.

14. Dyweodd perchnogion Tŷ Bethel y byddent yn annog y cam i gofrestru gofal preswyl a gofal nyrsio ar y cyd, er mwyn cynorthwyo i fynd i'r afael a'r problemau sy'n deillio o symud pobl pan fyddant wedi setlo. Dywedasant y gall fod yn anodd iawn gyda chyplau, sy'n cael eu gwahanu yn y diwedd yn aml; ond, yn Nhŷ Bethel byddant yn ceisio cadw cyplau gyda'i gilydd, hyd yn oed os bydd un cymar wedi cael diagnosis o salwch sy'n gofyn am ofal nyrsio.

Ariannu a rheoleiddio

15. Clywodd yr Aelodau y bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio prynu gwasanaethau gofal ar y gyfradd rataf bosibl, a all arwain at frwydr bob blwyddyn i leihau'r gwahaniaeth pris rhwng y gwir gost a'r hyn y bydd yr Awdurdod Lleol yn fodlon

ei dalu. Dim ond saith bunt yw'r gwahaniaeth eleni, a gellir ymdopi â hwn, ond yn y gorffennol bu'r gwahaniaeth gymaint â £30 yr wythnos.

16. Roedd cynrychiolwyr o'r cartref yn sôn sut y dylid ceisio cael rhywfaint o hyblygrwydd o ran rheoliadau, a chanolbwyntio'n well ar y gofal o bobl -er enghraifft, rhaid cael pum ystafell ymolchi yn Nhŷ Bethel, gan fod 40 o breswylwyr yno, ond nid oes ganddynt y lefelau staffio ar gyfer defnyddio'r holl ystafelloedd ymolchi ar yr un pryd beth bynnag.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
HSC(4)-15-12 papur 9

Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL – YMCHWILIAD I OFAL PRESWYL I BOBL HŶN

CYFARFOD Y GRŴP CYFEIRIO (17 EBRILL 2012)

Cefndir

1. Sefydlodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol grŵp cyfeirio ar gyfer ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yng ngwanwyn 2012. Mae'r grŵp yn cynnwys y rhai sydd wedi cynorthwyo cyfeillion ac aelodau teuluol mewn lleoliadau gofal preswyl, y rhai sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd neu sy'n wynebu'r posibilrwydd o wneud hynny yn y dyfodol.

2. Rôl y grŵp cyfeirio allanol yw mynegi barn i'r Pwyllgor ar faterion allweddol sy'n cael eu codi yn ystod yr ymchwiliad. Mae'r materion hyn yn cynnwys y cwestiwn a yw aelodau'r grŵp yn credu bod y wybodaeth sy'n cael ei darparu yn y dystiolaeth yn adlewyrchu eu profiadau personol ac a ydynt yn cytuno â chyfeiriad y polisi presennol o ran darparu gofal preswyl i bobl hŷn.

3. Bydd y grŵp cyfeirio yn cyfarfod yn fisol wrth iddo glywed tystiolaeth lafar, gan ystyried tystiolaeth a glywyd yn barod a chynnig cwestiynau posibl ar gyfer sesiynau tystiolaeth yn y dyfodol. Bydd y grŵp cyfeirio yn cytuno ar gofnodion pob cyfarfod o'r grŵp cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Crynodeb

4. Cyfarfu'r grŵp ar 17 Ebrill 2012 i drafod y prif themâu a gododd o sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 23 Chwefror (egluro'r cefndir), 29 Chwefror (defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr), 14 Mawrth (byrddau iechyd lleol) a 22 Mawrth (awdurdodau lleol).

5. Roedd y grŵp yn teimlo bod llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn yn dangos synnwyr cyffredin, a gofynnodd pam nad oedd sawl dull a awgrymwyd er mwyn gwella gofal i bobl hŷn wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn hyd yma. Roedd y grŵp hefyd yn awyddus i bwysleisio bod llawer o enghreifftiau cadarnhaol o ofal preswyl yn bodoli, a'i fod yn gobeithio na fydd ymchwiliad ac adroddiad y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr agweddau negyddol ar ofal preswyl yn unig.

Prif themâu

6. Cytunodd y grŵp cyfeirio mai'r prif themâu yn deillio o'r sesiynau

tystiolaeth ffurfiol a restrwyd ym mharagraff 4 oedd:

- **Canfyddiad gwael ymhlith y cyhoedd** o ran cartrefi gofal a'r angen i wella'r canfyddiad hwn ymhlith darpar breswylwyr a'r cyhoedd yn ehangach;
- Yr angen am gymorth a **gwybodaeth** well i'r rhai sydd wedi cychwyn ar y siwrnai tuag at ofal preswyl;
- Yr angen i wella prosesau asesu, o ran amseru ac ystyried newid mewn anghenion;
- Yr angen i fynd i'r afael â materion ynghylch **urddas** mewn cartrefi gofal preswyl;
- Yr angen am **gontinwwm gofal**, lle gellir ymateb i anghenion sy'n esblygu ymhlith preswylwyr mewn un lleoliad, yn hytrach na gofyn bod preswylwyr yn symud wrth i'w anghenion newid;
- Pwysigrwydd cefnogi ymyrraeth gynnar ac argaeledd gwasanaethau ataliol, yn ogystal ag amseru asesiadau yn well a gwell opsiynau ar ôl i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty;
- Hyfforddi a recriwtio **staff** (a mwy o gydnabyddiaeth o ofal cymdeithasol fel gyrfa);
- **Cydweithio integredig** gwell rhwng y rhai sy'n gysylltiedig â darparu gofal preswyl (yn cynnwys gwaith rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol);
- Pwysigrwydd **gweithgareddau** a symbyliad mewn lleoliadau gofal;
- Yr heriau sy'n codi wrth ddarparu gofal i bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig.

7. Cododd nifer o faterion eraill y cytunodd y grŵp y byddai'n eu trafod mewn cyfarfod yn y dyfodol. Y materion hyn oedd **rheoliad ac archwilio** a **chyllido** gofal.

8. Wrth ystyried y prif faterion a'r dystiolaeth a gafwyd, gwnaethpwyd y pwyntiau a ganlyn gan y grŵp:

   - Bod angen gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r **canfyddiad gwael ymhlith y cyhoedd o fywyd mewn cartrefi gofal a'r staff sy'n gweithio ynddynt**. Roedd y grŵp yn pryderu'n fawr bod gan bobl sy'n mynd i gartrefi ddisgwyliadau isel, ac roedd am sicrhau bod y bobl hyn yn parhau i fwynhau bywydau llawn. Roedd aelodau'r grŵp yn teimlo bod lle mewn cymdeithas ar gyfer gofal preswyl, yn ogystal â modelau eraill ar gyfer darparu gofal, oherwydd gall byw

gartref ar ben eich hun fod yn brofiad unig iawn.

- Roedd **y diffyg cefnogaeth a gwybodaeth sydd ar gael i bobl a'u teuluoedd ar eu siwrnai tuag at ofal cymdeithasol** yn brofiad a rannwyd gan nifer o aelodau'r grŵp o ran dewis cartrefi gofal. Siaradodd aelodau'r grŵp am y diffyg gwybodaeth am gartrefi a oedd ar gael, a'r ffordd nad oeddent yn glir am yr hyn i chwilio amdano wrth fynd drwy'r broses o chwilio am gartref gofal da. Gofynnodd y grŵp beth yw gofal da, yn enwedig beth yw gofal dementia da. Awgrymwyd y byddai pobl sydd wedi bod drwy'r system yn ffynhonnell dda o gymorth a gwybodaeth i'r teuluoedd hynny sydd wedi cychwyn ar y siwrnai tuag at ofal preswyl—gallai hyn fod yn ddefnyddiol oherwydd roedd y grŵp yn teimlo bod angen i'r teuluoedd hyn ddatblygu arbenigedd yng ngofal cymdeithasol yn gyflym iawn, sy'n arbennig o anodd oherwydd y sefyllfaoedd argyfyngus y maent yn aml yn eu hwynebu. Os yw gwybodaeth am fathau o ofal ac yn y blaen ar gael, roedd y grŵp yn teimlo ei bod yn anodd dod o hyd iddi, ac nid yw'n cael ei dangos i'r bobl sydd o bosibl ei hangen.

- Mynegwyd pryder penodol mewn perthynas â'r diffyg gwybodaeth a **chymorth sydd ar gael i bobl sy'n talu am ofal eu hunain**, efallai na fyddent yn cael eu hysgogi i gael mynediad at gymorth gan awdurdodau lleol. Hefyd, nodwyd problemau gyda'r broses o geisio sicrhau cyllid ar gyfer gofal iechyd parhaus drwy'r GIG, yn enwedig ar gyfer pobl sydd â dementia.

- Roedd yr angen am **gontinwwm gofal** yn gysyniad allweddol i'r grŵp. Roedd gan rhai o aelodau'r grŵp brofiad o'r trafferthion sy'n codi pan fo perthnasau'n cael eu trosglwyddo o gartref gofal preswyl i gartref nyrsio a'r cyffro a'r gofid y mae hyn yn ei achosi. Yn benodol, cafodd y trafferthion o ran gorfod ffurfio perthnasau newydd gyda staff a phreswylwyr a'r dewis cyfyngedig o gartrefi gofal eu trafod. Fodd bynnag, pwysleisiodd y grŵp os fyddai cartrefi gofal yn esblygu i ddarparu continwwm gofal o dan un to, byddai angen dulliau diogelu i sicrhau bod niferoedd staff priodol yn cael eu cynnal ar gyfer pob math o ofal yn y lleoliad hwnnw.

- Bu'r grŵp yn trafod y **broses asesu ar gyfer mynediad at ofal preswyl** a'r amser gorau i gynnal asesiad o'r fath. Cytunodd y grŵp nad yw cynnal asesiad tra bod unigolion mewn ysbyty yn ddelfrydol, yn enwedig oherwydd y gallai iechyd unigolion wella unwaith iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Awgrymwyd y gallai asesiadau gwell sy'n cael eu cynnal nes ymlaen ar adeg fwy priodol gynyddu nifer yr opsiynau sydd ar gael i bobl hŷn, gan gynnwys dychwelyd i'w cartrefi eu hunain.

- Darparodd y grŵp nifer o esiamplau o'u perthnasau'n colli eiddo angenrheidiol, gan gynnwys dannedd gosod, cymhorthion clyw a sbectolau tra eu bod yn cael gofal preswyl (ac mewn ysbytai), a thrafferthion dilynol wrth gael mynediad at optegwyr/deintyddion a gweithwyr proffesiynol eraill i gael offer newydd. Cytunodd y grŵp fod cael mynediad at wasanaethau ac offer fel hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau **lefel sylfaenol a derbyniol o urddas**. Yn rhannol, roedd y grŵp yn teimlo bod hyn yn gysylltiedig â safon asesiad iechyd y preswylwyr pan roeddent yn dod i'r lleoliad gofal, a bod angen codi ymwybyddiaeth ymhlith staff ynghylch pwysigrwydd cymryd camau i sicrhau bod anghenion synhwyraidd a deintyddol unigolion yn cael eu monitro'n rheolaidd. Roedd y grŵp yn teimlo y gellid gwneud gwelliannau yn y maes hwn.

- Bu'r grŵp yn trafod a allai cartrefi gofal fod mwy fel **canolfannau adnoddau lleol** y gallai gofalwyr fynd iddynt i gyfarfod â'i gilydd, gyda chanolfannau dydd wedi'u hintegreiddio i'r cartref a lle gellid sefydlu cysylltiadau gwell gyda'r gymuned. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch dichonolrwydd gwneud hyn o ystyried y strwythurau sy'n bodoli a'r hinsawdd gyfredol o adnoddau prin. Fodd bynnag, roedd y grŵp yn teimlo y gallai'r dull hwn helpu i gynyddu **cyfranogiad y gymuned** a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chartrefi gofal.

- Roedd y grŵp yn teimlo y dylid ystyried gofalu fel galwedigaeth debyg i feddygaeth neu ddysgu a mynegodd ei farn bod **angen parhaus i hyfforddi a recriwtio** staff sy'n addas ar gyfer y proffesiwn. Roedd y grŵp yn teimlo ei fod yn ymddangos nad oedd yr hyfforddiant yn trafod urddas sylfaenol a materion yr oedd y grŵp teimlo eu bod yn synnwyr cyffredin, a dadleuodd bod angen cynnwys profiad gwaith yn yr hyfforddiant. Bu'r grŵp yn trafod sut gall gweithio yn y proffesiwn gofalu fod yn werth chweil i'r unigolyn, a bod angen deall hynny os yw'r canfyddiad o weithio yn y maes hwn yn mynd i wella. Cafwyd awgrymiad bod angen i staff gofal preswyl gael tri pheth hanfodol, sef hyfforddiant, amser a natur dda.

- Yn ogystal â hyfforddiant gwell i staff, bu'r grŵp yn trafod **yr angen am gymorth a hyfforddiant i ofalwyr**. Teimlwyd nad oedd pobl yn aml yn disgrifio eu hunain fel gofalwyr, ac felly nid oeddent yn cael y cymorth a oedd angen arnynt.

- Roedd yr angen i wasanaethau sy'n cynnig gofal preswyl, er enghraifft awdurdodau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, **gydweithio** yn bwysig i'r grŵp. Roedd aelodau'r grŵp yn credu y dylid cael cymysgedd o bobl i gynnig gofal ar y cyd â gweithwyr proffesiynol, fel gwirfoddolwyr yn y gymuned.

Trafodwyd yr angen i gael eglurder o ran gwahanol rolau hefyd, fel gwahanol rolau gweithwyr gofal a gweithwyr cymdeithasol. Roedd y grŵp yn teimlo y gallai gweithio ar y cyd yn well arwain at arbedion.

- Pwysleisiodd y grŵp bwysigrwydd darparu **gweithgareddau a symbyliad priodol** mewn lleoliadau gofal. Cytunodd y grŵp fod gweithgareddau a symbyliad priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau safon byw preswylwyr, a bod angen codi ymwybyddiaeth ynghylch yr hyn y mae gweithgareddau a symbyliad priodol yn eu golygu i'r gwahanol bobl mewn gwahanol leoliadau gofal. Nid oedd y grŵp yn teimlo bod digwyddiadau grŵp a drefnwyd ymlaen llawn yn unig yn ddigonol: efallai y byddai'n well gan breswylwyr ddilyn eu diddordebau personol, neu eistedd gydag aelod o staff am bum munud dros baned o de.

- Roedd y grŵp yn credu bod darparu eiriolwyr annibynnol yn bwysig iawn. Ystyriwyd y cyngor a'r cymorth y gallent eu rhoi i'r rhai o fewn y system gofal i fod yn werthfawr iawn. Mynegodd aelodau'r grŵp bryderon nad oedd eiriolwyr yn gallu cael mynediad i rai cartrefi, gan ofyn a allai cymal ar y mater hwn gael ei gynnwys yn adroddiadau AGGCC.

- Cafodd pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar ac ail-alluogi eu trafod gan y grŵp. Awgrymwyd y gallai amrywiaeth a maint y gwaith hwn helpu i atal derbyniadau diangen i gartrefi gofal a rhoi mwy o ryddid i bobl benderfynu ar eu gofal eu hunain yn y dyfodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd y grŵp bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r opsiynau hyn a'u bod yn gallu cael mynediad atynt.

Cwestiynau ar gyfer sesiynau yn y dyfodol

9. Bu'r grŵp hefyd yn trafod yn fras y cwestiynau allweddol i ofyn i dystion yn y dyfodol, gan awgrymu'r materion a ganlyn:

    - Gofyn i'r trydydd sector beth yw'r cwmpas ar gyfer gweithio ar y cyd yn ehangach gydag awdurdodau iechyd/awdurdodau lleol a chymunedau;

    - Cynnal trafodaethau â chyrff staff ynghylch sut mae mynd i'r afael â natur gwrth-risg rhai cartrefi gofal o ran gwahodd pobl i'w cartrefi [cytunodd y grŵp nad yw hyn yn cynorthwyo'r gwaith o wella dealltwriaeth a chanfyddiadau'r cyhoedd o gartrefi preswyl].

    - Sicrhau bod gan y Pwyllgor gyfle i siarad yn uniongyrchol gyda gweithwyr mewn cartrefi gofal, yn enwedig gan nad oes corff

penodol yn eu cynrychioli.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-15-12 papur 10

Blaenraglen Waith

PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: BLAENRAGLEN WAITH AC AMSERLEN

Diben

1. Diben y papur hwn yw amlinellu'r busnes a ddisgwylir ar gyfer amserlen y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hydref / gaeaf 2012, ac i ofyn am farn Aelodau ar flaenraglen waith y Pwyllgor.

Cefndir

2. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: iechyd corfforol, meddyliol a chyhoeddus pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

3. Hyd yma, mae rhaglen y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar waith polisi. Gan edrych ar dymor yr hydref a'r gaeaf, mae'n ymddangos y bydd yn gyfnod dwys o ran cyfrifoldebau deddfwriaethol y Pwyllgor.

Busnes a ddisgwylir o Fedi – Rhagfyr 2012

4. Mae nifer o ddarnau o **ddeddfwriaeth** yn debygol o gael eu cyfeirio at y Pwyllgor i'w hystyried yn ffurfiol dros y misoedd nesaf. Ceir manylion pellach am y rhain yn Atodiad A i'r papur hwn. Disgwylir y bydd angen dyrannu'r mwyafrif o amser y Pwyllgor i'r gwaith hwn rhwng Medi a Rhagfyr 2012.

5. Yn ogystal â gwaith deddfwriaethol y Pwyllgor, fe fydd angen iddo ystyried y **gyllideb ddrafft** ar gyfer 2013-14 yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

6. O ganlyniad i hyn oll, mae'n anochel y bydd gallu'r Pwyllgor i gyflawnu gwaith **craffu ar bolisi** yn fwy cyfyngedig nag y buodd dros y 12 mis diwethaf. Er hynny, bydd cyfle i wneud darn hyblyg o waith polisi o gwmpas ymrwymiadau ddeddfwriaethol a chyllidebol y Pwyllgor.

Opsiynau

7. O ystyried yr angen i raglen y Pwyllgor ganolbwyntio'n fwy ar ddeddfwriaeth yn nhymor yr hydref, fe fydd angen i unrhyw waith polisi a ddewisir gan Aelodau fod yn ddigon hyblyg i gyd-fynd â'r amserlenni penodedig a osodir ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth a'r gyllideb.

8. Fe gynigir, felly, y dylai'r Pwyllgor ddewis un pwnc polisi i'w ystyried yn nhymor yr hydref / gaeaf. Byddai modd trefnu'r gwaith hwn I gydfynd ag ymrwymiadau deddfwriaethol a chyllidebol y Pwyllgor.

9. Unwaith i'r Pwyllgor ddewis pwnc, fe fydd Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor yn darparu papur cwmpas a chylch gorchwyl drafft er ystyriaeth Aelodau. Awgrymir y dylai'r Pwyllgor lansio ymgynghoriad dros gyfnod yr haf er mwyn cynnig digon o amser i bobl gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer tymor yr hydref.

10. Er gwybodaeth Aelodau, darperir rhestr o bynciau posib a awgrymwyd gan Aelodau a / neu randdeiliaid yn y gorffennol yn Atodiad B 'r papur hwn.

Y cynnig

11. Gwahoddir Aelodau i:

    (i) ystyried yr opsiynau a amlinellir ym mharagraffau 7 – 10;

    (ii) gynnig unrhyw syniadau cychwynnol ar gyfer ymchwiliad.

ATODIAD A – Amserlen posibl deddfwriaeth arfaethedig

Mae'r amserlen isod yn rhoi syniad yn unig ac wedi ei seilio ar wybodaeth a roddwyd gan yr Aelodau sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth. Mae'n bosibl y caiff y dyddiadau eu newid gan yr Aelodau perthnasol sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth.

Bil	**Yr aelod sy'n gyfrifol**	**Amseru**
Bil Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (Dangos Gwybodaeth) (Cymru)	Bil Llywodraeth – Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cyfnod 1: Haf – Hydref 2012 Cyfnod 2: Hydref 2012
Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)	Bil Llywodraeth – Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfnod 1: Hydref – Gaeaf 2012 Cyfnod 2: Gaeaf – Gwanwyn 2013
Bil Rhoi Organau (Cymru)	Bil Llywodraeth – Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cyfnod 1: Gaeaf 2012 Cyfnod 2: Gwanwyn 2013
Bill Iechyd y Cyhoedd (Cymru)	*Bil Llywodraeth – Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol*	*Ail hanner tymor 5 mlynedd y Llywodraeth*

Efallai yr hoffai aelodau fod yn ymwybodol hefyd y derbyniodd **Bil Asbestos (Adennill Costau Meddygol)**, a gynigiwyd gan Mick Antoniw AC, ganiatad y Cynulliad i fynd ymlaen. Mae'n debygol y bydd yn dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac o ganlyniad, mae'n bosibl y caiff ei gyfeirio at y Pwyllgor i'w ystyried yn ystod Cyfnod 1 a Chyfnod 2 yn hydref a gaeaf 2012.

ATODIAD B – Pynciau ymchwiliadau polisi posib a awgrymwyd hyd yma

Rhestr o bynciau sydd eisoes wedi'u crybwyll gan Aelodau / rhanddeiliaid sydd isod. Nid oes rhaid i Aelodau ddewis o'r rhestr isod – fe'i darparwyd er gwybodaeth yn unig. Gellir darparu rhestr ehangach / mwy o fanylder yn hwyrach yn y tymor, fel bo angen.

- Defnydd Technoleg Gwybodaeth yn y GIG
- Strategaeth / gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru
- Access to medicines / treatments in Wales
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu
- Gofal Iechyd yng Ngharchardai Cymru
- Nyrsys arbenigol a nyrsys ymgynghorol
- Gwasanaethau Cyd-ymatebwyr yng Nghyrmu
- Anghydraddoldebau iechyd
- Anhwylder Straen Wedi Trawma

Health and Social Care Committee
HSC(4)-15-12 paper 11
One-day inquiry into venous thrombo-embolism prevention – Evidence from 1000 Lives + / Public Health Wales

1000 Lives Plus and Public Health Wales

Response to the National Assembly for Wales Health and Social Care Committee: call for evidence on venous thrombo-embolism prevention

This paper is in response to the request for written evidence by the Health and Social Care Committee undertaking the one-day inquiry into venous thrombo-embolism prevention in hospitalised patients in Wales.

The paper focuses upon the national approach taken by 1000 Lives Plus and the actions of the central team. It should be read in conjunction with the individual Health Board and Trust reports.

The following areas are covered in the paper:

1. An introduction to 1000 Lives Plus
2. The case for preventing VTE
3. Reducing Surgical Complications - Preventing VTE
4. Hospital Acquired Thrombosis – mini-collaborative
5. Moving forward
6. Transforming Maternity Care and Preventing VTE
7. Next Steps
8. Appendix 1: Timeline

1. An introduction to1000 Lives Plus

1000 Lives Plus is the national improvement programme, supporting organisations and individuals, to deliver the highest quality and safest healthcare for the people of Wales.
It focuses on three key areas to spread and embed quality improvement:

i. Establishing a common and consistent approach to improvement across all NHS organisations in Wales.
ii. Developing a public and patient-driven NHS.
iii. Establishing a commitment to developing capacity and capability among the NHS workforce.

1000 Lives Plus takes forward the standardised improvement methodology, use of evidence-based interventions and measurement for improvement introduced by the 1000 Lives Campaign and Intelligent Targets work.

Data are used to focus improvement efforts – using measurement for learning and not for judgement, accountability or comparison. Data in the Campaign and within the national programme is collected by organisations and for their own improvement use. Process measures enable organisations to control variation and ensure reliability in their processes. Outcome measures reflect the impact on the patient or system and show the end result of an organisation's improvement work.

The role of 1000 Lives Plus is to support organisations with their improvements, not to performance manage their work. Data is not collected or aggregated by 1000 Lives Plus.

2. The case for preventing VTE

1000 Lives Plus reviewed the evidence for preventing VTE and found a substantial case for evidence-based improvement through small tests of change.

In 2005, the Health Select Committee identified that, in the UK:

- Pulmonary Embolism (PE) following Deep Vein Thrombosis (DVT) in hospitalised patients causes between 25,000 and 32,000 deaths each year.
- PE following DVT is the immediate cause of death in 10% of all patients who die in hospital.
- The total cost (direct and indirect) to the UK of managing VTE is estimated at £640 million.
- VTE in hospitalised patients is largely preventable through the use of thromboprophylaxis during the hospital stay of the patient and, in some cases, continuing after discharge.[1]

In late 2009, Sir Liam Donaldson and John Smith (MP) reaffirmed the priority of preventing hospital acquired thrombosis (HAT), in their foreword in Venous Thromboembolism Prevention (DH 2009) they stated:

> "In 2007 there were 16,670 recorded deaths in England and Wales where Pulmonary Embolism and Deep Vein Thrombosis (VTE) were mentioned on the death certificate (Office of National Statistics).
>
> However, the overall death rate from VTE in hospital and the community is likely to be significantly higher since the condition is often clinically silent and deaths are not being identified due to a reduction in post-mortem examinations.
>
> The emerging picture of death and acute and chronic disability (such as chronic venous insufficiency, venous leg ulcers and pulmonary hypertension) leaves no room for complacency when low-cost effective preventative treatments are available.
>
> VTE prevention is, above all, about saving lives and reducing long term ill health. This is common and often avoidable. We have long known of safe, effective and straightforward methods of prevention and will continue to work towards widespread recognition that VTE prevention is one of the most important new patient safety issues …."[2]

A report by NCEPOD (2009) explored the care of patients who died within four days of admission to NHS and private hospitals in the UK, and found that only 55% of patients admitted under a surgeon and 38% of patients admitted under a physician received venous thromboembolism prophylaxis.[3]

3. Reducing Surgical Complications - Preventing VTE

The 1000 Lives Campaign was launched in April 2008 and took forward a number of actions from the *Healthcare Quality Improvement Plan: Designed to Deliver 2006* (QuIP). It aimed

[1] *House of Commons (2005). House of Commons Health Committee Report on the Prevention of Venous Thromboembolism in Hospitalised Patients.*
[2] *Department of Health, Venous Thromboembolism Prevention: A Patient Safety Priority King's Thrombosis Centre, 2-3.*
[3] *NCEPOD (2009). Caring to the End? A review of the care of patients who died in hospital within four days.*

to save an additional 1000 lives and to avoid up to 50,000 episodes of harm in Welsh healthcare in two years.

The evidence-based content areas were developed by clinicians in Wales, based upon an appraisal by the former NPHS of the evidence base relating to 12 proposed Institute for Health Improvement interventions. Four interventions were prioritised based on their effectiveness and transferability to NHS Wales, including 'Preventing and reducing surgical complications,' and an additional two areas were added.

Within the Reducing Surgical Complications area, three drivers for improvement were identified, including 'Prevent Perioperative Cardiovascular Events.' One of the interventions within this driver was to 'Identify patients at risks, and provide appropriate DVT prophylaxis.'

An evidence-based How to Guide was developed for Reducing Surgical Complications and eight Health Boards and Trusts participated in a national mini-collaborative, sharing ideas and knowledge, sharing methodologies for change, implementing proven concepts, and measuring change.

The area proved a challenge to many organisations and it was also delayed by the late introduction of an All Wales Risk Assessment document. All organisations signed up to this area but only three were posting data on risk assessment. Implementation concentrated on pre-assessment clinics for elective surgery was yet to spread to ward areas where patients were admitted directly. Only two organisations were posting data for VTE prophylaxis at this point in time.

4. Hospital Acquired Thrombosis - mini-collaborative

In January 2010, following a review of the evidence available regarding VTE and progress made by organisations, it was agreed to deliver a 12 month mini-collaborative specifically around VTE prevention.

A driver diagram and How to Guide specifically on the area were produced by Dr Simon Noble, Peggy Edwards and Dr Jonathon Gray. Special input was received from Lifeblood: The Thrombosis Charity, the All Party Parliamentary Thrombosis Group, the Department of Health VTE Implementation programme and organisations who contributed case studies.



In this mini-collaborative, the mission of the 1000 Lives Campaign and participating health care organisations was to work together to develop a systematic approach to VTE prevention to reduce avoidable death and harm in hospital patients in Wales. This was to be achieved through the collaborative by the implementation of the All Wales Risk Assessments and appropriate prophylaxis for all in-patients in Wales. Organisations initially focused on a patient population, for example orthopaedic patients; a specific ward; or a specific team.

Goals for participating organisations included:

- Reduce incidents of HAT by 50% in 18 months
- Achieve 100% compliance with risk assessment and prophylactic treatment of in patients by December 2010
- Raise awareness among professionals and the public of HAT prevention and the All Wales Risk Assessment
- Engage with all healthcare professionals, senior managers and doctors in implementing HAT risk assessment in local hospitals and in assessing compliance across the NHS
- Develop better measures and feedback mechanisms on HAT in hospitals
- Raise awareness of HAT prevention in primary care and the community in general.

Organisations completed monthly reports (via the IHI extranet) and considered ways of gathering data monthly such as using risk assessment forms filled out as patients are admitted or follow up inspection of notes.

Process measures:

- Percentage of surgical/ medical patients who have a documented assessment for the risk of developing a HAT.
- Percent of in-patient whose risk assessment is actioned appropriately
- Percent of in-patients whose risk assessment is reviewed at 48 hours and documented

Outcome measures:

- Number of surgical/ medical patients who experience a HAT.

Schedule for the Learning Sessions:

Learning Session 1: 12 January 2010
Learning Session 2: 8 June 2010
Learning Session 3: 16 December 2010

5. Moving forward

At the end of the collaborative in March 2011, there were notable achievements across Health Boards and Trusts. The development of five All Wales Risk Assessment Tools triggered organisations to adopt the all Wales tool, adapt the tool or develop their own bespoke tools. Without the initial prompt for the All Wales Thrombosis Group this work would have been significantly delayed. The work had concentrated upon the implementation of the risk assessment only. The re-assessment of patients on an ongoing basis and ensuring the appropriateness of prophylaxis was identified as a challenge which required support in the service.

The inclusion of the process measure of % patients risk assessed in the Annual Operating Framework from October 2010 helped focus organisations. However, the challenge of the various measures that require data collection across the whole programme was acknowledged as significant for the front line teams.

It was proposed that the Maternity collaborative would continue the work for pregnant women, and Enhanced Recovery After Surgery (ERAS) would pick up surgical patients prophylaxis.

Following the publicity from NHS England in the summer of 2011, the Medical Director for NHS Wales requested a progress update and this was provided by 1000 Lives Plus.

With the ending of the collaborative in March 2011, responsibility for the continuation of the work was passed back to Health Boards and Trusts. 1000 Lives Plus team were approached in the June of 2011 by VTE leads who were concerned at the lack of progress. It was agreed that 1000 Lives Plus would convene a one-off learning event in September 2011 to assess the situation. The event successfully brought together the VTE leads for the seven Health Boards plus Velindre NHS Trust. It was billed as making VTE assessment part of the 'day job'. Three key issues of measurement, clinical engagement and senior management support emerged from the discussions on the day.

The creation of a HAT rate was made the aim for the following six months based on a methodology pioneered in Betsi Cadwaladr University Health Board. It was also agreed that 1000 Lives Plus would arrange a follow-up meeting in March 2012 to assess progress. At that meeting five of the seven Health Boards plus Velindre were able to demonstrate a HAT rate and provide data showing their current performance. The other two Health Boards left with plans in place to do likewise. There is still work to do to evidence the comprehensive nature of risk assessment.

6. Transforming Maternity Care and Preventing VTE

The overall aim of the Transforming Maternity Services Mini-Collaborative is to improve the experience and outcomes for women, babies and their families within Maternity Services. One of the drivers in achieving this aim is to reduce the risk of venous thrombo-embolism in pregnancy. It was launched on 3 March 2011 at the Royal Colleges of Midwives (RCM) annual conference.

The Transforming Maternity Services Mini-Collaborative brings together experts, clinicians and managers to effect change at the bedside (from the 'bottom up'). It is endorsed by Welsh Government, all Health Boards in Wales, the RCM, and Obstetricians and Gynaecologists (RCOG) in Wales.

Learning events have been scheduled as follows to support the all Wales mini-collaborative:

- Learning Session 1: 4 March 2011
- Learning Session 2: 7 June 2011
- Learning Session 3: 24 November 2012
- Learning Session 4: 29 May 2012

Following consultation with experts from within Wales and the relevant endorsement committees, consensus has been reached to enable universal VTE risk assessment to be implemented throughout Wales, with two Exemplar DVT Risk Assessment templates – one relating to the initial 'Booking' visit, which is to be included in the National Hand-Held

> Welsh Government should work with health boards in Wales to produce a HAT rate. This should include the use of such a rate in Welsh Government "Quality Frameworks" to better focus the issue of VTE prevention, to drive change from a "Board to Ward" level.
> We acknowledge that the development of such a HAT rate is not easy but once again we believe that this would improve implementation of the NICE guidance. Radiology departments would need to provide standard codes for positive and negative scan (Doppler and V/Q scan) results to help in this process.

We believe that with a greater focus on the development of outcomes would improve the success of implementation of the NICE guidance. A great deal of success has been achieved with Health Care Associated infection (HCAI) rates in Wales, particularly Clostridium Difficile. There is a need to develop similar levels of awareness and measurements throughout the Healthcare

Community (from Welsh Government to ward level) of VTE prevention to that which has been achieved with HCAI.

Dr Graham Shortland BM, DCH, FRCPCH.
Medical Director Cardiff and Vale UHB

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
HSC(4)-15-12 papur 17
Ymchwiliad un-dydd i atal thrombo-emboledd gwythiennol - Bwrdd Iechyd Hywel Dda

---

Ymateb Bwrdd Iechyd Hywel Dda i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ymchwiliad Un Diwrnod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i osgoi thrombo-emboledd gwythiennol ("venous thrombo-embolism" - VTE) ar gyfer cleifion yn yr ysbyty yng Nghymru.

Diben y papur hwn
Mae'r papur hwn yn rhoi tystiolaeth i Ymchwiliad Un Diwrnod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i osgoi thrombo-emboledd gwythiennol ("venous thrombo-embolism" - VTE) ar gyfer cleifion yn yr ysbyty, i ba raddau y mae Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) Hywel Dda wedi gweithredu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ("NICE") a dull Asesu Risg 1000 o Fywydau a Mwy.

Cefndir
Mae BILl Hywel Dda wrth wraidd gofal iechyd lleol canolbarth a de orllewin Cymru. Mae'r sefydliad, a ffurfiwyd yn 2009, yn gyfrifol am roi'r gwasanaethau gofal iechyd angenrheidiol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro ac am wella iechyd a lles cyffredinol ei gymuned. Mae'r sefydliad yn dwyn ynghyd wasanaethau gofal cymunedol, sylfaenol ac eilradd ar gyfer tua 375,000 o bobl ledled eu siroedd a'r tu hwnt i hynny.
Mae pedwar ysbyty acíwt:

- Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth;
- Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli;
- Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin;
- Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, Hwlffordd.

Mae gwasanaethau acíwt a chymunedol hefyd yn cael eu darparu gan:

- 8 ysbyty cymunedol;
- 15 canolfan iechyd, a mannau eraill.

Caiff gwasanaethau gofal sylfaenol eu rhoi yn bennaf drwy gontractwyr, gan gynnwys:

- 55 meddygfa (prif safleoedd)
- 51 deintyddfa (67 contract deintyddol);
- 99 fferyllfa gymunedol;
- 51 practis optometreg

Mae sawl lleoliad arall sy'n rhoi gwasanaethau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu, Adfer, Seicotherapi a Niwroseicoleg.

Cyflwyniad

Ystyrir unrhyw VTE sy'n digwydd o fewn 90 diwrnod o dderbyn claf i'r ysbyty yn VTE a gafwyd yn yr ysbyty.

Mae VTE a gafwyd yn yr ysbyty, sy'n amrywio o thrombosis gwythiennau dwfn ("Deep Vein Thrombosis" - DVT) ansympomatig i emboledd anferth yr ysgyfaint ("massive Pulmonary Embulism" - PE), yn gyffredin yn dilyn derbyniad i'r ysbyty ac fe'i hystyrir yn achos sylweddol morbidrwydd a marwolaeth mewn cleifion sydd yn yr ysbyty. Amcangyfrifir y gallai fod 60,000 o farwolaethau o PE yn y DU, er bod Swyddfa Ystadegau Gwladol Lloegr yn cofnodi ffigwr gydnabyddedig o 6,000 yn 2010. Cydnabyddir nad yw nifer sylweddol o farwolaethau o ganlyniad i PE yn cael eu diagnosio ac, ar gyfer pob achos lle nodwyd mai PE oedd achos marwolaeth yn yr ysbyty, fel arfer mae dau glaf arall lle ni wnaed y diagnosis. Roedd 284,000 o farwolaethau yn yr ysbyty yng Nghymru a Lloegr yn 2007, ac amcangyfrifodd astudiaeth VITAE Ewrop fod 12% o'r marwolaethau hyn o ganlyniad i PE. Ond, mae astudiaethau post-mortem yn disgrifio cwymp yn nifer yr achosion o 10% o farwolaethau yn yr ysbyty tua 1980 i tua 2% mewn astudiaethau mwy diweddar. Wrth gwrs, bydd defnyddio thrombobroffylacsis sylfaenol wedi cael effaith ar y cwymp hwn ac mae newidiadau i arferion yn golygu bod cleifion yn cael eu symudedd yn ôl yn gyflym ac yn cael eu hanfon yn ôl yn gynharach, a bydd y rhan fwyaf o farwolaethau o PE yn digwydd ar ôl i'r claf gael ei ryddhau.

Amcangyfrifir bod dau dreian o achosion o PE yn cael eu hachosi yn yr ysgyfaint a bod 70% o farwolaethau'n digwydd ymhlith cleifion meddygol yn hytrach na rhai llawfeddygol. Mae'r risg o VTE ymhlith derbyniadau meddygol yn amrywio o 15% ar gyfer cleifion meddygol cyffredinol i 50% ar gyfer cleifion strôc, tra bod PE a gydnabyddir yn feddygol yn digwydd i 1% o gleifion meddygol cyffredinol.

Cydnabyddir hefyd y gallai risg VTE fodoli am hyd at 90 diwrnod ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty, a bydd llawer o VTE yn digwydd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Hefyd, yn aml, bydd VTE yn glinigol ddistaw, gan nad oes unrhyw arwyddion clinigol mewn 80% o DVT ond gall hyn gynhyrchu goblygiadau hirdymor, sef syndrom ôl-thrombotig.

Gweithredu canllawiau NICE
Roedd polisïau a phrotocolau ar gyfer osgoi thrombo-emboledd gwythiennol ymhlith cleifion mewnol llawfeddygol a meddygol mewn grym yn Ymddiriedolaethau GIG cyfansoddol y GIG BILI Hywel Dda am sawl blwyddyn cyn cyhoeddi canllaw NICE.

Ym mis Ebrill 2007, cyhoeddodd NICE Ganllaw Clinigol 46: 'Reducing the risk of venous thrombo-embolism in in-patients undergoing surgery'. Cafodd y canllaw hwn ei ddiweddaru a'i disodli ym mis Ionawr 2010 gan CG92:

'Reducing the risk of venous thrombo-embolism (deep vein thrombosis and pulmonary embolism) in patients admitted to hospital'.

Ar ôl i Ganllaw Clinigol 46 gael ei gyhoeddi, cychwynnwyd rhaglen archwilio er mwyn monitro a hwyluso'r broses o roi'r callawiau ar waith o fewn yr arbenigeddau llawfeddygol.

Ym mis Gorffennaf 2009, cynhaliodd Pwyllgor Thrombosis Hywel Dda (sy'n adrodd i'r Grŵp Rheoli Meddygaeth) ei gyfarfod cyntaf. Diben cyffredinol y Pwyllgor Thrombosis yw 'datblygu a goruchwylio'r broses o weithredu'r canllawiau ar gyfer osgoi a rheoli thrombo-emboledd ledled Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda'.

Ym mis Rhagfyr 2009, lansiodd Grŵp Thrombosis Cymru Gyfan Ddull Asesu Risg Thrombobroffylacsis Cymru Gyfan a gafodd ei fabwysiadu gan BILl Hywel Dda yn dilyn adolygiad a chynnwys nifer gyfyngedig o opsiynau o ran cyffuriau gan Bwyllgor Thrombosis Hywel Dda, gan gychwyn mewn clinigau cyn-asesu llawfeddygol yn gyntaf. Ond, roedd angen trafodaethau pellach ledled BILl Hywel Dda er mwyn symud ymlaen tuag at ddull cyson ar gyfer rhoi cynnyrch ar bresgripsiwn ar gyfer pwysau moleciwlaidd isel, Heparin, a chyfeiriwyd hyn at y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau. Achosodd hyn oedi wrth roi ar waith y dulliau Asesu Risg Thrombobroffylacsis ar hyd pob arbenigedd perthnasol.

Nododd Archwiliad a gafodd ei gynnal yn Ysbyty Tywysog Philip yn 2005 fod tua 40% o gleifion yn cael proffylacsis. A nododd archwiliad pellach yn 2010 fod tua 46% o gleifion yn cael proffylacsis.

Gweithredu Dulliau Asesu Risg VTE 1000 o Fywydau a Mwy
Yn dilyn lansiad maes Rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy, 'Reducing Harm from Hospital Acquired Thrombosis' ("HAT") ym mis Mai 2010, mae gweithredu HAT wedi dod yn flaenoriaeth sefydliadol ar gyfer BILl Hywel Dda, fel y gwelwyd o benodiad arweinydd gweithredol ar gyfer HAT. Er mwyn parhau â gwaith HAT, cafodd Grŵp Gweithredu HAT Hywel Dda ei sefydlu a roddodd gyfle i feithrin dull sydd wedi'i ganolbwyntio'n well er mwyn parhau â'r elfennau amrywiol sy'n cefnogi'r broses o weithredu HAT yn llwyddiannus ledled y 4 Ysbyty Ardal, o fewn pob arbenigedd.

Dull Asesu Risg VTE: cafodd y Ffurflenni Asesu Risg VTE eu 'lleoleiddio' er mwyn eu defnyddio ledled BILl Hywel Dda, gan gynnwys cyrraedd dull cyson ar gyfer rhoi presgripsiwn ar gyfer pwysau moleciwlaidd isel, Heparin, a thrwy hynny gysoni'r arfer ledled BILl Hywel Dda.

<u>Lansio HAT 1000 o Fywydau a Mwy</u>

Ar 17 Hydref 2011, yn dilyn proses o godi ymwybyddiaeth drwy sawl cyfrwng, fel llythyr gan y Cyfarwyddwr Meddygol, hysbysiad trwy e-bost i'r holl staff, cafodd ffurflenni Asesu Risg VTE eu lansio yn yr ysbytai acíwt ar gyfer pob arbenigedd.

Archwiliad
Gweler: Effeithiolrwydd a defnyddio proffylacsis ffarmacolegol a mecanyddol ar gyfer VTE.

O ystyried y cynnydd rydym wedi'i weld, erbyn hyn mae Grŵp Gweithredu HAT Hywel Dda wedi dod i ben ac mae wedi'i ddisodli gan 4 Grŵp Gweithredu HAT sydd wedi'u seilio yn yr ysbyty. Bydd y rhain yn creu mwy o berchenogaeth leol wrth barhau i weithredu HAT ledled y 4 Ysbyty Ardal. Bydd y 4 Grŵp Gweithredu HAT hyn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgorau Ansawdd a Diogelwch Sirol yn unol â Grwpiau Cydweithredol eraill 1000 o Fywydau a Mwy yn ogystal ag i Bwyllgor Thrombosis Hywel Dda.

Mae Pwyllgor Thrombosis Hywel Dda yn cyflawni rôl Grŵp Llywio HAT a bydd yn parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu HAT ym mhob Ysbyty Ardal drwy fynd i'r afael â materion y sefydliad ehangach, er enghraifft datblygu Polisi Thrombosis, addysgu staff meddygol, monitro/rheoli perfformiad, gan gynnwys datblygu proses ar gyfer cyfrifo cyfradd VTE a systemau gweithredu dibynadwy, taflenni gwybodaeth i gleifion a lledaenu'r gwaith o osgoi HAT ymhellach i'r Ysbytai Cymunedol.

Polisi Thrombosis
Mae'r holl ganllawiau, protocolau a pholisïau sydd mewn grym ar hyn o bryd yn BILI wedi'u coladu a'u hadolygu gan Bwyllgor Thrombosis Hywel Dda. Bydd Polisi Thrombosis cyffredinol yn cael ei ddrafftio a fydd yn cynnwys yr holl ganllawiau, protocolau a pholisïau perthnasol.

Mae Polisi Hosanau Gwrth-Embolig wedi'i gymeradwyo sy'n sicrhau dull cyson wrth ofalu am gleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty sydd wedi cael hosanau gwrth-embolig ar bresgripsiwn, yn unol â Rhaglen HAT 1000 o Fywydau a Mwy.

Addysgu Staff Meddygol:
Mae Arweinwyr Clinigol a Hematolegwyr Ymgynghorol ym mhob ardal wedi rhoi addysg i glinigwyr ar gyflwyno a llenwi ffurflenni Asesu Risg VTE. Yn ogystal â hyn, maent hefyd wedi mynychu cyfarfodydd Nyrsys Uwch a chwrdd â thimoedd Anasthetig ac Orthopedig er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd osgoi HAT a llenwi ffurflenni Asesu Risg VTE. Ar ben hyn, mae'r Rheolwyr Gwella Ansawdd ym mhob ysbyty ardal a'r Arweinwyr Nyrsio Clinigol yn cynnal gwiriadau ar hap i gadarnhau bod y wardiau'n cydymffurfio, ac yn pwysleisio'r angen i lenwi ffurflenni Asesu Risg VTE.

Er mwyn gwella cydymffurfio, caiff ffurflenni Asesu Risg VTE eu cadw gyda'r siart cyffuriau ar waelod gwely'r claf a bwriedir bod Ymgynghorwyr yn pwysleisio'r angen i Asesu Risg VTE ar y rownd gyntaf ar y ward ar ôl derbyn claf.

Cyflwyno canlyniadau archwiliad ar gydymffurfio ag asesiadau risg VTE mewn Cyfarfodydd Archwilio Clinigol Ysbytai Llawn, cyfrannu at ddysgu staff meddygol ac at waith parhaus i godi ymwybyddiaeth am gynnal asesiadau risg VTE.

Cydnabyddir bod angen addysg ffurfiol barhaus o safbwynt osgoi thrombo-emboledd gwythiennol ("venous thrombo-embolism" - VTE) ymhlith cleifion yn yr ysbyty o ystyried cylchdroadau meddygon iau; bydd yr arweinwyr clinigol a'r hematolegwyr ymgynghorol yn mynd i'r afael â hyn gan ddefnyddio'r slotiau dysgu mewn sesiynau sefydlu meddygon iau.

Monitro/Rheoli Perfformiad/cyfradd VTE:
Mae rhaglen HAT 1000 o Fywydau a Mwy yn nodi mai 'llenwi nifer o asesiadau risg VTE' yw'r unig fesur gorfodol sydd ei angen. Serch hynny, yn ogystal â hyn mae mesurau proses 1000 o Fywydau a Mwy fel a ganlyn:

- % o'r holl gleifion mewnol sy'n oedolion ac sydd wedi cael asesiad risg HAT wrth gael eu derbyn i'r ysbyty gan ddefnyddio dull cenedlaethol.
- % sy'n cael proffylacsis HAT priodol: % o gleifion mewnol sy'n cael y proffylacsis a nodwyd yn eu hasesiad risg.
- % o gleifion mewnol y mae eu hasesiad risg yn cael ei adolygu a'i gofnodi ar ôl 48 awr.
- % o gleifion sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y 3 mis diwethaf a ddatblygodd DVT neu PE (y gyfradd VTE)

Rhaid sefydlu prosesau Monitro/Rheoli Perfformiad er mwyn gallu casglu data ac adrodd ar berfformiad o ran canlyniadau a'r mesurau proses, yn enwedig cyfradd VTE BILI Hywel Dda.

Mae gwaith wedi cychwyn ar ddatblygu'r gyfradd VTE yn seiliedig ar ganllawiau 'How to' Mel Baker. Yn dilyn trafodaeth â'r Adrannau Radioleg a Gwybodaeth, daeth i'r amlwg y byddai defnyddio codau Patholeg yn symleiddio'r broses hon a chafodd y rhain eu cyflwyno ar 01/02/2012. Mae data'r 3 mis cyntaf wrthi'n cael ei wirio o ran ansawdd, a bwriedir adrodd ar gyfradd VTE Hywel Dda yn y dyfodol agos.

Taflenni Gwybodaeth i Gleifion:

Mae taflenni gwybodaeth i gleifion, a gynhyrchir gan EIDO Healthcare, yn cael eu rhoi i gleifion mewn clinig cyn-asesu ac mae canllawiau NICE ar gael i unrhyw gleifion sydd am gael gwybodaeth ychwanegol.

Rhoddir gwybodaeth i gleifion hefyd yn unol â pholisi Hosanau Gwrth-Embolig.

Effeithiolrwydd a defnyddio proffylacsis ffarmacolegol a mecanyddol ar gyfer VTE

Roedd archwiliad o ddefnydd ffurflenni Asesu Risg VTE a ph'un a roddwyd thrombobroffylacsis ar bresgripsiwn gyfer cleifion sy'n cael eu derbyn i Uned Derbyniadau Meddygol Acíwt/Uned Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty Tywysog Philip ym mis Tachwedd 2011 yn dangos cynnydd yn y cleifion a oedd yn derbyn proffylacsis priodol. Nododd yr archwiliad fod 61% o gleifion meddygol wedi cael proffylacsis; ond llenwyd ffurflen Asesu Risg VTE ar gyfer 32% o'r cleifion a gafodd eu derbyn. Mae argymhellion yr archwiliad cychwynnol yn cynnwys, felly:

- Bod tystiolaeth o asesiad risg yn perthyn i bob derbyniad, gan ddefnyddio ffurflen thromboproffylacsis.
- Bod Clexane yn cael ei roi ar bresgripsiwn y unrhyw glaf y mae asesiad risg yn nodi bod angen hyn arnynt.
- Bod cleifion nad yw eu harennau'n gweithredu'n arferol yn cael prawf EGFR a bod y dos o Clexane yn cael ei addasu fel y bo'n briodol.
- Bod cofnod yn cael ei wneud o bwysau'r claf ar y ffurflen Asesu Risg VTE.
- Bod y ffurflen Asesu Risg VTE yn cael ei chadw gyda'r siart cyffuriau er mwyn ei hadolygu 48 awr yn ddiweddarach.

Mae cymhariadau ag archwiliadau blaenorol yn dangos bod mwyn o gleifion meddygol yn cael proffylacsis priodol ers cyflwyno ffurflenni Asesu Risg.

- 2005: 40% wedi derbyn proffylacsis priodol
- 2010: 46% wedi derbyn proffylacsis priodol
- 2011: 61% wedi derbyn proffylacsis priodol

Bydd ail-archwiliad yn Ysbyty Tywysog Philip yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 30/04/2012.

Yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili, mae'r archwiliad yn cael ei gynnal ar 9 ward meddygol, ar 9 diwrnod gwahanol yn ystod mis Mai. Mae'r archwiliad yn cynnwys cadarnhau a yw asesiad o risg VTE wedi'i gynnal, gan gynnwys defnyddio'r ffurflen Asesu Risg VTE, a roddwyd thrombobroffylacsis VTE ar bresgripsiwn a, phan na'n cael ei roi ar bresgripsiwn, bod nodyn clir o hyn yn y nodiadau meddygol.

Cafodd y gwaith o weithredu ffurflenni Asesu Risg VTE ar gyfer Derbyniadau Meddygol Acíwt ei fonitro yn ystod mis Medi a mis Hydref yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Yn ystod mis Hydref, roedd gan 14 o bob 15 (93%) o gleifion ffurflen Asesu Risg VTE wedi'i chynnwys yn eu nodiadau meddygol. Roedd 13% o'r ffurflenni Asesu Risg VTE wedi'u llenwi'n gywir a chafodd 93% o gleifion thrombobroffylacsis. Argymhellwyd rhannu'r data cydymffurfio hwn ag arweinwyr cyd-grwpiau HAT 1000 o Fywydau a Mwy er mwyn ei adolygu, er mwyn gwella, ac er mwyn rhoi tystiolaeth bod y broses o Asesu Risg yn gadarn. Yn ystod mis Ionawr 2012, cynhaliwyd archwiliad ar sampl o holl dderbyniadau Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Caiff canlyniadau'r archwiliad hwn eu cyflwyno ar 10 Mai yn Archwiliad Ysbyty Cyfan Ysbyty Bronglais.

Yn ogystal â hyn, rhaid sefydlu archwiliad o arferion llawfeddygol / orthopedig er mwyn cael darlun llawn o waith gweithredu pob arbenigedd a phob ysbyty.

Problemau penodol o ran gweithredu a chynnal camau gweithredu i osgoi VTE

Tra y gall staff nyrsio hwyluso'r broses drwy hyrwyddo ac atgoffa bod ffurflenni Asesu Risg yn cael eu llenwi, y staff meddygol sy'n gyfrifol am asesu cleifion a llenwi ffurflenni Asesu Risg VTE. Gan fod staff meddygol iau yn cael eu newid yn aml, mae angen rhoi addysg barhaus er mwyn gwella dibynadwyedd llenwi ffurflenni Asesu Risg VTE ac, yn bwysicach, bod thrombobroffylacsis priodol yn cael ei roi mewn da bryd i gleifion.

Y brif rôl nyrsio yw hwyluso mesur, cyflenwi a rhoi maint priodol o thrombobroffylacsis meddygol h.y. Hosanau Gwrth-Embolig, yn ogystal â rhoi gofal yn yr ysbyty ac yn y cartref. Bydd staff nyrsio hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion ac yn rhoi Heparin ar bresgripsiwn ar gyfer pwysau moleciwlaidd isel. Yn olaf, byddant yn sicrhau bod cleifion yn deall y drefn maent yn ei dilyn, a pham.

Casgliad

Mae BILI Hywel Dda wedi cymryd camau positif tuag at leihau risg cleifion mewnol o gael thrombo-emboledd gwythiennol ac felly mae wedi lleihau niwed posibl i gleifion, lleihau amrywiaeth wrth roi gwasanaeth a chanlyniadau clinigol, a lleihau gwastraff drwy osgoi bod cleifion yn datblygu cymhlethdodau. Mae hyn wedi gwella ansawdd y gofal iechyd sy'n cael ei roi, a diogelwch cleifion.

Serch hynny, gall BILI Hywel Dda wella sawl peth er mwyn ymwreiddio'n llawn y broses o Asesu Risg VTE a chydymffurfio'n llawn â'r drefn broffylactig a argymhellir fel rhan o arferion bob dydd yr holl staff ym mhob maes clinigol y BILI.

Kathryn Davies
Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd
Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
HSC(4)-15-12 papur 18
Ymchwiliad un-dydd i atal thrombo-emboledd gwythiennol - Llywodraeth Cymru

Diben

1. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad undydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i atal thromboemboledd gwythiennol (VTE) mewn cleifion yn yr ysbyty yng Nghymru.

2. Mae'r papur tystiolaeth:

   - yn crynhoi'r holl ganllawiau gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) mewn perthynas ag atal VTE.
   - yn edrych ar y ffordd y rhoddir canllawiau NICE ar waith;
   - yn edrych ar yr offeryn asesiad risg 1000 o Fywydau a Mwy ar draws Cymru a pha mor ddigonol ac effeithiol ydyw wrth atal VTE mewn cleifion yn yr ysbyty.

Crynodeb

3. Cyhoeddwyd llawer o dystiolaeth ar beth sydd angen ei wneud i atal VTE yn yr ysbyty. Mae'n cynnwys asesu'n systematig gleifion sydd mewn perygl, triniaeth broffylactig lle bo angen a hefyd addysgu cleifion a'u cael i chwarae eu rhan. Mae'r GIG yng Nghymru, gyda chefnogaeth rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy, wedi cymryd camau breision i sicrhau gofal ar sail tystiolaeth a gwella diogelwch cleifion. Roedd hyn yn her ond mae'n dal yn flaenoriaeth wrth i ni geisio sicrhau gofal diogel o'r safon uchaf i gleifion yn yr ysbyty yng Nghymru.

Thromboemboledd Gwythiennol

4. Cyflwr yw VTE lle mae clot gwaed (thrombws) yn ymffurfio mewn gwythïen. Mae'n digwydd amlaf yng ngwythiennau dwfn y coesau; yr enw ar hwn yw thrombosis gwythiennau dwfn. Gall y thrombws symud o'r safle lle mae'n ymffurfio a theithio yn y gwaed – ffenomen o'r enw emboledd.

5. Mae VTE yn ymddangos yn glinigol mewn gwahanol ffurfiau. Yn aml nid yw thrombosis gwythiennol yn dangos symptomau; yn llai aml mae'n achosi i'r goes chwyddo'n boenus. Gall rhan o'r thrombws neu'r cyfan ddod yn rhydd a theithio i'r ysgyfant, sef emboledd ysgyfeiniol, a allai fod yn farwol. Mae thrombosis gwythiennol symptomatig yn creu baich sylweddol o forbidrwydd, gan gynnwys morbidrwydd hirdymor oherwydd diffyg gwythiennol cronig. Gall hyn yn ei dro achosi briwiau gwythiennol a gall aelod ôl-thrombotig ddatblygu (fel rheol gyda phoen gronig, chwyddo a newidiadau i'r croen).

6. Mae VTE yn un o'r prif bethau sy'n achosi i gleifion yn yr ysbyty farw ac mae trin VTE symptomatig nad yw'n farwol a'r morbidrwydd hirdymor cysylltiedig yn gostus iawn i'r gwasanaeth iechyd.

7. Mae'r risg o ddatblygu VTE yn dibynnu ar y cyflwr a/neu'r driniaeth y mae'r claf yn cael ei dderbyn ar ei gyfer ac ar unrhyw ffactorau risg rhagdueddol (megis oed, gordewdra a chyflyrau cydredol).

8. Adroddodd Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin yn 2005 yr amcangyfrifir bod 25,000 o bobl ym marw bob blwyddyn ym Mhrydain o VTE a gânt yn yr ysbyty ac y gallasid ei atal. Mae hyn yn cynnwys cleifion a dderbynnir i'r ysbyty ar gyfer gofal meddygol a llawfeddygaeth. Mae llawer o adroddiadau bod mesurau proffylactig ar gyfer VTE mewn cleifion yn yr ysbyty yn cael eu rhoi ar waith mewn modd anghyson. Awgrymodd arolwg ledled y DU nad oedd 71% o'r cleifion yr aseswyd eu bod mewn perygl canolig neu uchel o ddatblygu thrombosis gwythiennau dwfn wedi derbyn unrhyw ffurf o broffylacsis mecanyddol na ffarmacolegol ar gyfer VTE.

Canllawiau Clinigol NICE

9. Fis Ionawr 2010, cyhoeddodd NICE ganllawiau clinigol "Reducing the risk of venous thromboembolism (deep vein thrombosis and pulmonary embolism) in patients admitted to hospital". Roedd y canllawiau yn diweddaru ac yn disodli canllawiau a gyhoeddwyd gynt gan NICE yn 2007. Disgwylir i bob rhan o'r GIG yng Nghymru ddarparu gofal yn unol â chanllawiau NICE.

10. Mae'r canllawiau yn cynnwys argymhellion o ran asesu'r risg y bydd cleifion mewn ysbytai yn cael VTE a lleihau'r risg hwnnw. Mae'n cynnig canllawiau ar y mesurau mwyaf effeithiol, yn glinigol ac o ran cost, ar gyfer proffylacsis VTE yn y cleifion hyn.

11. Mae'r 'Blaenoriaethau Allweddol' yn y canllawiau i'w gweld isod:

"Asesu risg VTE a gwaedu

- Dylid asesu pob claf wrth ei dderbyn ac adnabod y rhai sydd â risg uwch o VTE.

- Dylid ystyried bod gan gleifion meddygol risg uwch o VTE:

  - os disgwylir i'w symudedd fod yn sylweddol llai am 3 diwrnod neu ragor **neu**
  - os disgwylir i'w symudedd fod yn is yn barhaus na'r hyn sy'n arferol iddynt a bod ganddynt un neu ragor o'r ffactorau risg sydd i'w gweld ym mlwch 1.

- Dylid ystyried bod gan gleifion llawfeddygaeth a chleifion â thrawma risg uwch o VTE os ydynt yn cwrdd ag un o'r meini prawf canlynol:

  - llawfeddygaeth am gyfanswm o amser dan anaesthetig a llawfeddygaeth o fwy na 90 munud, neu 60 munud os yw'r llawfeddygaeth ar y pelfis neu'r goes
  - derbyniad llawfeddygol acíwt gyda chyflwr llidiol neu fewn-abdomenol
  - disgwylir symudedd sylweddol is
  - un neu ragor o'r ffactorau risg sydd i'w gweld ym mlwch 1.

- Dylid asesu pob claf ar gyfer y risg o waedu cyn cynnig proffylacsis ffarmacolegol VTE. Ni ddylid cynnig proffylacsis ffarmacolegol VTE i gleifion sydd ag unrhyw un o'r ffactorau risg ar gyfer gwaedu sydd i'w gweld ym mlwch 2, oni bai fod y risg o VTE yn bwysicach na'r risg o waedu.

- Dylid ailasesu risgiau cleifion o ran gwaedu a VTE cyn pen 24 awr ar ôl eu derbyn a phob tro y mae'r sefyllfa glinigol yn newid, er mwyn:

  - sicrhau bod y dulliau proffylactig a ddefnyddir ar gyfer VTE yn addas
  - sicrhau y defnyddir y proffylacsis ar gyfer VTE yn gywir
  - adnabod digwyddiadau anffafriol sy'n digwydd o ganlyniad i broffylacsis VTE.

Lleihau'r risg o VTE

- Dylid annog cleifion i symud cyn gynted ag y bo modd.

- Dylid cynnig proffylacsis ffarmacolegol ar gyfer VTE i gleifion meddygol yr aseswyd bod ganddynt risg uchel o VTE. Dewiswch unrhyw un o blith:

  - fondaparinux sodium
  - heparin â màs moleciwlaidd isel (LMWH)
  - heparin heb ei ffracsiynu (UFH) (ar gyfer cleifion â methiant yr arennau).

Dylid dechrau proffylacsis ffarmacolegol ar gyfer VTE cyn gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau'r asesiad risg. Dylech barhau nes nad oes gan y claf risg uwch o VTE.

Gwybodaeth i gleifion a chynllunio ar gyfer eu rhyddhau

- Cyn dechrau proffylacsis ar gyfer VTE, dylid rhoi gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i gleifion a/neu eu teuluoedd neu'u gofalwyr am:

  - risgiau a chanlyniadau posibl VTE
  - pwysigrwydd proffylacsis ar gyfer VTE a'i sgil effeithiau posibl
  - sut i ddefnyddio proffylacsis ar gyfer VTE yn gywir (er enghraifft hosanau gwrth-emboledd, dyfeisiau ysgogi'r traed neu ddyfeisiau cywasgu niwmatig ysbeidiol)
  - sut y gall cleifion leihau eu risg o VTE (megis yfed digon ac, os oes modd, ymarfer corff a symud mwy).

- Fel rhan o'r cynllun rhyddhau o'r ysbyty, dylid rhoi gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i gleifion a/neu eu teuluoedd neu'u gofalwyr am:

  - arwyddion a symptomau thrombosis gwythiennau dwfn ac emboledd ysgyfeiniol
  - sut i ddefnyddio proffylacsis ar gyfer VTE yn gywir gartref ac am ba hyd (os rhoddir proffylacsis iddynt wrth eu rhyddhau)
  - pwysigrwydd defnyddio proffylacsis ar gyfer VTE yn gywir a pharhau gyda'r driniaeth am y cyfnod a argymhellir (os rhoddir proffylacsis iddynt wrth eu rhyddhau)
  - arwyddion a symptomau digwyddiadau anffafriol sy'n gysylltiedig â phroffylacsis ar gyfer VTE (os rhoddir proffylacsis iddynt wrth eu rhyddhau)
  - pwysigrwydd ceisio cymorth a phwy y dylid cysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw broblemau wrth ddefnyddio'r proffylacsis (os rhoddir proffylacsis iddynt wrth eu rhyddhau)
  - pwysigrwydd ceisio cymorth meddygol a phwy y dylid cysylltu ag ef os ydynt yn amau bod arnynt thrombosis gwythiennau dwfn, emboledd ysgyfeiniol neu ddigwyddiad anffafriol arall.

Blwch 1 Ffactorau risg ar gyfer VTE

- Canser presennol neu driniaeth ar gyfer canser
- Dros 60 mlwydd oed
- Derbyn ar gyfer gofal critigol
- Diffyg hylif
- Thromboffiliau hysbys
- Gordewdra (mynegai màs y corff [BMI] dros 30 kg/m^2)
- Un cyd-forbidrwydd o bwys neu ragor (er enghraifft: clefyd y galon; patholeg metabolig, endocrinaidd neu resbiradol; clefydau heintus acíwt; cyflyrau llidiol)
- Hanes personol neu berthnasau gradd gyntaf sydd â hanes o VTE
- Defnyddio therapi adfer hormonau
- Defnyddio therapi atal cenhedlu sy'n cynnwys oestrogen
- Gwythiennau faricos gyda fflebitis

Blwch 1 Ffactorau risg ar gyfer gwaedu

- Gwaedu presennol
- Anhwylderau gwaedu a gafwyd (megis methiant acíwt yr afu)
- Defnyddio gwrthgeulydd ar yr un pryd y mae'n hysbys eu bod yn cynyddu'r risg o waedu (megis warfarin â chymhareb normaleiddedig ryngwladol [INR] uwch na 2)
- Disgwylir anaesthesia tynnu hylif madruddyn y cefn/epidwral/sbinol cyn pen 12 awr
- Wedi cael anaesthesia tynnu hylif madruddyn y cefn/epidwral/sbinol yn ystod y 4 awr ddiwethaf
- Strôc acíwt
- Thrombocytopenia (platennau llai na 75 x 10^9/l)
- Gorbwysedd systolig heb reolaeth (230/120 mmHg neu uwch)
- Anwylderau gwaedu etifeddol heb eu trin (megis haemoffilia a chlefyd von Willebrand)

Canllawiau eraill perthnasol NICE

12. Yn ogystal â'r Canllawiau Clinigol, mae NICE wedi cynnal yr arfarniadau technoleg canlynol ar gyfer meddyginiaethau mewn perthynas â VTE:

Cyhoeddedig

- Dabigatran etexilate; fe'i hargymhellir fel dewis ar gyfer ataliad cychwynnol o ddigwyddiadau thromboembolig gwythiennol mewn oedolion sydd wedi cael llawfeddygaeth ddethol i gael clun newydd neu ben-glin newydd (TA157 a gyhoeddwyd Medi 2008);

- Rivaroxaban; fe'i hargymhellir fel dewis ar gyfer atal digwyddiadau thromboembolig gwythiennol mewn oedolion sydd am gael llawfeddygaeth ddethol i gael clun newydd neu ben-glin newydd (TA170 a gyhoeddwyd Ebrill 2009);

- Apixaban; fe'i hargymhellir fel dewis ar gyfer atal digwyddiadau thromboembolig gwythiennol mewn oedolion ar ôl llawfeddygaeth ddethol i gael clun newydd neu ben-glin newydd (TA245 a gyhoeddwyd Ionawr 2012).

Mae dyletswydd statudol ar y GIG yng Nghymru i ariannu darparu'r meddyginiaethau hyn, yn unol â chanllawiau NICE.

Wrthi'n cael eu datblygu

- Rivaroxaban ar gyfer trin ac ataliad eilaidd o thromboemboledd gwythiennol (dyddiad cyhoeddi tebygol Gorffennaf 2012);

- Dabigatran etexilate ar gyfer trin digwyddiadau thromboembolig gwythiennol acíwt (dyddiad cyhoeddi i'w gadarnhau);

- Apixaban ar gyfer atal thromboemboledd gwythiennol mewn afiechyd meddygol acíwt (dyddiad cyhoeddi i'w gadarnhau);

- Rivaroxaban ar gyfer atal thromboemboledd gwythiennol mewn pobl sy'n mynd i'r ysbyty oherwydd cyflyrau meddygol acíwt (dyddiad cyhoeddi i'w gadarnhau).

Safon Ansawdd

Mae NICE hefyd wedi cyhoeddi Safon Ansawdd ar Atal VTE yn 2010, gan gynnwys y saith Datganiad Ansawdd canlynol:

Rhif	**Datganiadau Ansawdd**
1	Bydd pob claf, wrth gael ei dderbyn yn cael asesiad o'r risg o VTE a gwaedu gan ddefnyddio'r meini prawf asesiad risg clinigol a ddisgrifir yn yr offeryn cenedlaethol.

2	Cynigir i gleifion/gofalwyr wybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig ar atal VTE fel rhan o'r broses derbyn.
3	Os rhoddir hosanau gwrth-emboledd i gleifion, cânt eu gosod a'u monitro yn unol â chanllawiau NICE.
4	Ailasesir cleifion cyn pen 24 awr ar ôl cael eu derbyn o ran y risg o VTE a gwaedu.
5	Cynigir i gleifion yr aseswyd eu bod mewn perygl o VTE broffylacsis ar gyfer VTE yn unol â chanllawiau NICE.
6	Cynigir i gleifion/gofalwyr wybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig am atal VTE fel rhan o'r broses o'u rhyddhau o'r ysbyty.
7	Cynigir i gleifion broffylacsis estynedig (ar ôl gadael yr ysbyty) ar gyfer VTE yn unol â chanllawiau NICE.

Mae Safon Ansawdd bellach, "Rheoli afiechydon thromboembolig gwythiennol" hefyd yn cael ei datblygu a rhagwelir y caiff ei chyhoeddi yn Ebrill 2013.

Gweithredu i atal VTE ar gyfer cleifion yn yr ysbyty yng Nghymru

13. Mae gwaith Ymgyrch 1000 o Fywydau ac yn awr Rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy, sef y rhaglen wella genedlaethol ar gyfer GIG Cymru, wedi cefnogi'r GIG yng Nghymru wrth iddo roi ar waith beth sydd ei angen i helpu i atal cleifion rhag cael VTE yn yr ysbyty. Mae gwaith 1000 o Fywydau wedi cyflwyno methodoleg safonedig ar gyfer gwella yn GIG Cymru er mwyn cefnogi rhoi ar waith ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth mewn modd dibynadwy a chyson. Ei nod yw hwyluso cyflwyno gofal iechyd o'r safon uchaf ac o'r math mwyaf diogel.

14. Lansiwyd Ymgyrch 1000 o Fywydau yn Ebrill 2008 gyda'r nod o arbed 1000 yn rhagor o fywydau ac osgoi hyd at 50,000 digwyddiad o niwed mewn gofal iechyd yng Nghymru mewn dwy flynedd. Cynhwysai ychydig o feysydd (clinigol) seiliedig ar dystiolaeth, yn sgil gwerthusiad o'r dystiolaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol fel yr oedd ar y pryd. Roedd hyn yn seiliedig ar waith rhyngwladol a gafodd ei ddyfeisio a'i roi ar waith gan y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd yn yr Unol Daleithiau. O ganlyniad, cynhwysai'r ymgyrch yng Nghymru faes ar gyfer 'atal a lleihau cymhlethdodau llawfeddygol'. Un o'r ymyriadau yn y maes hwn oedd adnabod cleifion sydd mewn perygl ac yna darparu proffylacsis priodol ar gyfer DVT.

15. Darparodd Ymgyrch 1000 o Fywydau adnoddau a chefnogodd gyrff yn y GIG trwy raglen gydweithiol i roi mesurau ar waith. Bryd hynny roedd y dull hwn o weithio yn newydd yn y GIG yng Nghymru, gan ddod â thimau clinigol o bob rhan o Gymru ynghyd i rannu syniadau, gwybodaeth a heriau a datblygu dulliau i roi ar waith y gwahanol ymyriadau yr oedd eu hangen, gan gynnwys datblygu offeryn asesiad risg ar gyfer Cymru gyfan.

16. Yn ystod cyfnod Ymgyrch 1000 o Fywydau, daeth rhagor o dystiolaeth i'r fei a chafodd canllawiau NICE eu diweddaru. Felly yn Ionawr 2010, ar ôl adolygiad gan dîm 1000 o Fywydau a Mwy o'r dystiolaeth oedd ar gael o ran VTE a'r cynnydd a wnaed gan gyrff, cytunwyd â Phrif Weithredwr GIG Cymru ar y pryd i roi ar waith brosiect cydweithredol bychan am 12 mis yn ymwneud yn arbennig ag atal VTE fel rhan o Raglen newydd 1000 o Fywydau a Mwy.

17. Gweithiodd tîm 1000 o Fywydau a Mwy mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys Lifeblood, yr elusen thrombosis, i ddatblygu 'canllawiau sut i'w wneud' a 'diagram gyrrwr' fel sydd i'w gweld isod. Mae'r fethodoleg syml hon yn nodi'r gwahanol weithrediadau, gan gynnwys asesu, trin a chynnwys y claf, y mae angen eu gweithredu mewn dull systematig ar gyfer pob claf sydd mewn perygl er mwyn ceisio ei atal rhag cael VTE yn yr ysbyty.



18. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar nifer o fesurau proses i fesur pa mor ddibynadwy yw'r ffordd y rhoddir ymyriadau ar waith. Gyda phrosesau dibynadwy iawn, dylem weld newidiadau a gwelliannau wrth fesur canlyniadau.

19. Mae 1000 o Fywydau a Mwy yn dal i gefnogi cyrff GIG yng Nghymru gyda'r gwaith hwn a'r sialensiau lu y mae wedi'u cynnig. Yn ogystal â rhoi asesiadau risg ar waith, mae gwaith yn parhau i sicrhau bod cleifion yn cael eu hail-asesu'n barhaus ac yn derbyn proffylacsis addas. Ar gyfer cleifion llawfeddygol, mae'r gwaith hwn yn parhau trwy'r rhaglen Gwell Adferiad ar ôl Llawdriniaeth (ERAS).

20. Mae tîm 1000 o Fywydau a Mwy yn gweithio ar hyn o bryd gyda staff arweiniol VTE mewn cyrff GIG i ddatblygu dull mesur canlyniadau ar gyfer y gyfradd thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty (HAT). Mae hyn yn adeiladu ar sail gwaith arloesol a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Erbyn Mawrth 2012, roedd chwech o'r wyth corff wedi sefydlu proses i gyflawni hyn ac mae'r ddau arall yn gweithio tuag ati. Dyma gam pwysig ymlaen yn y gwaith cyffredin i fynd i'r afael â VTE gan ei fod yn anodd asesu'n ddibynadwy pa mor gyffredin yw HAT gyda'r systemau casglu/codio data presennol. Efallai mai Cymru fydd y wlad gyntaf i gael cyfradd genedlaethol ar gyfer HAT.

Trawsnewid Gofal Mamolaeth ac Atal VTE

21. Lansiodd 1000 o Fywydau a Mwy ei raglen gydweithredol Trawsnewid Gwasanaethau Mamolaeth ym Mawrth 2011. Deliodd hyn â'r elfennau penodol ar gyfer atal VTE mewn beichiogrwydd. Nod cyffredinol y rhaglen hon yw gwella'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer menywod, babanod a'u teuluoedd o fewn Gwasanaethau Mamolaeth. Un o'r pethau allweddol i wireddu'r nod hwn yw lleihau'r risg o thromboemboledd gwythiennol mewn beichiogrwydd.

22. Cytunwyd ar asesiad risg VTE cynhwysfawr ar gyfer menywod beichiog. Fe'i cafwyd ar ôl ymgynghori ag arbenigwyr yng Nghymru a'r pwyllgorau cadarnhau. Cafwyd consensws wrth gytuno dau Batrymlun Asesiad Risg DVT enghreifftiol – y naill ar gyfer yr ymweliad 'Bwcio' cychwynnol, a gynhwysir yn y Cofnodion Symudol Cenedlaethol a'r llall ar gyfer Derbyn Cynenedigol a'r pwerperiwm (cyfnod ôl-enedigol). Dyma gyflawniad pwysig ar gyfer y rhaglen gydweithredol fach mewn ychydig o amser. Mae'n dangos arweiniad ac ymgysylltu clinigol cryf yn ogystal â'r ymroddiad sy'n amlwg yn y maes pwysig hwn.

23. Mae pob uned famolaeth yn rhoi'r asesiadau risg hyn ar waith ar hyn o bryd ar ôl eu haddasu ar gyfer y sefyllfa leol a chael eu pwyllgorau craffu i'w cytuno. Mae gwaith ar y gweill hefyd i roi ar waith asesiad risg cyffredin ar gyfer bwcio a derbyn cynenedigol mewn wardiau gynaecolegol ochr yn ochr â'r asesiad risg cyffredinol ar gyfer DVT.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**
Dyddiad:	**Dydd Mercher, 2 Mai 2012**
Amser:	**09:00 – 12:05**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200004_02_05_2012&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:	**Mark Drakeford (Cadeirydd)** **Mick Antoniw** **Rebecca Evans** **Vaughan Gething** **William Graham** **Elin Jones** **Darren Millar** **Lynne Neagle** **Lindsay Whittle** **Kirsty Williams**
Tystion:	**Val Baker, Parkinson's UK Cymru** **Nick Bennett, Cartrefi Cymunedol Cymru** **Richard Davies, Grŵp Tai Gwalia** **Grant Duncan, Llywodraeth Cymru** **Steve Ford, Parkinson's UK Cymru** **Kevin Hughes, Grŵp Tai Pennaf** **Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru** **Rachel Lewis, Cynghrair Henoed Cymru** **Sue Phelpps, Alzheimer's Society** **Chris Quince, Cymdeithas Alzheimer's** **Angela Roberts, Cynghrair Henoed Cymru**
Staff y Pwyllgor:	**Llinos Dafydd (Clerc)** **Meriel Singleton (Clerc)** **Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)** **Stephen Boyce (Ymchwilydd)**

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

2. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn - tystiolaeth gan sefydliadau a darparwyr y trydydd sector ac ar fodelau amgen

Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn - tystiolaeth gan Gartrefi Cymunedol Cymru

2.1 Atebodd y tystion gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch gofal preswyl i bobl hŷn.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth am y gyfran o aelodau byrddau grwpiau tai sydd mewn gofal preswyl.

Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn - tystiolaeth gan Gynghrair Henoed Cymru

2.3 Atebodd y tystion gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch gofal preswyl i bobl hŷn.

Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn - tystiolaeth gan y Gymdeithas Alzheimer's a Parkinson's UK Cymru

2.4 Atebodd y tystion gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch gofal preswyl i bobl hŷn.

3. Papur Gwyn ar Roi Organau - Sesiwn friffio ddilynol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

3.1 Atebodd y tystion gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch y Papur Gwyn ar Roi Organau.

4. Papurau i'w nodi

Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Goblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus - Llythyr gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

4.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru - Confensiwn ar hawliau pobl hŷn

4.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chytunodd i rannu copi â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

4.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Deisebau.

TRAWSGRIFIAD
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.